OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1687

# Gorchymyn Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2015

## RHAN 3

Darpariaethau trosiannol

**Amodau cydnabod**

**7.**—(1) O 21 Medi 2015 ymlaen, mae'r amodau yn y ddogfen a ddisgrifir ym mharagraff (2), yn ddarostyngedig i'r diwygiadau iddynt y darperir ar eu cyfer yn y ddogfen a ddisgrifir ym mharagraff (3), i gael eu trin fel yr amodau cydnabod safonol a lunnir ac a gyhoeddir gan Gymwysterau Cymru o dan baragraff 2(1) o Atodlen 3 i'r Ddeddf.

(2) Y ddogfen yw'r un o'r enw "General conditions of Recognition March 2015" a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015(**1**) ac a gyhoeddir ar-lein ym mis Medi 2015 a'i enw'n cynnwys y cyfeirnod QWRD0003(**2**).

(3) Y ddogfen yw'r un o'r enw "Amendments to General Conditions of Recognition" ac a gyhoeddir ar-lein ym mis Medi 2015 a'i enw'n cynnwys y cyfeirnod QWRD0004(**3**).

(4) O 21 Medi 2015 ymlaen, ystyr cyfeiriadau yn y dogfennau a ddisgrifir ym mharagraffau (2) a (3) at "regulatory documents" yw'r dogfennau a restrir yn y ddogfen o'r enw "Qualifications Wales Regulatory Documents List" ac a gyhoeddir ar-lein ym mis Medi 2015 a'i enw'n cynnwys y cyfeirnod QWRD0005(**4**).

(5) O 21 Medi 2015 ymlaen, ystyr cyfeiriadau yn y ddogfen a ddisgrifir ym mharagraff (2) at "certificate requirements" yw'r gofynion a nodir yn y ddogfen o'r enw "Additional Certificate Requirements" ac a gyhoeddir ar-lein ym mis Medi 2015 a'i enw'n cynnwys y cyfeirnod QWRD0006(**5**).

(**1**) Ym mis Mawrth 2015, anfonodd Gweinidogion Cymru gopïau o'r ddogfen hon at swyddogion cyfrifol personau a oedd wedi eu cydnabod bryd hynny o dan adran 30(1)(e) o Ddeddf 1997.
(**2**) Ar 21 Medi 2015, mae'r ddogfen hon ar gael yn www.cymwysteraucymru.org.
(**3**) Ar 21 Medi 2015, mae'r ddogfen hon ar gael yn www.cymwysteraucymru.org.
(**4**) Ar 21 Medi 2015, mae'r ddogfen hon ar gael yn www.cymwysteraucymru.org.
(**5**) Ar 21 Medi 2015, mae'r ddogfen hon ar gael yn www.cymwysteraucymru.org.